# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 22 Tachwedd, 2016 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas<br>Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, amddifadedd a chydraddoldeb |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, amddifadedd a chydraddoldeb |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli perthnasol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau rwy'n gyfrifol amdanynt.

## 2. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

2.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 3. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

3.1. T7 - Cydymdrechu yn erbyn tlodi

3.1.1. Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu Strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid gan roi ar waith ystod eang o gynlluniau. Bydd gweithredu'r Strategaeth yn cynnwys ymyraethau mewn pedwar maes, sef: Cynhwysiad Digidol (ar y cyd â Gwynedd Ddigidol a Citizens Online), Cynhwysiad Ariannol, Cynhwysiad Economaidd (ar y cyd â Phecyn Gwella Mynediad Pobl i Waith), ac Ymateb i Ddiwygio Lles.

3.1.2 Erbyn hyn, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar weithredu'r rhaglen waith. Rwyf eisiau fy argyhoeddi bod adrannau'r Cyngor yn rhoi llawn ystyriaeth i'r strategaeth, ac i'r perwyl hwn, rwyf wedi gofyn iddynt amlygu eu cyfraniad trwy gwaith dydd i ddydd.

3.1.3 Gweithgarwch arall sy'n mynd rhagddo ar sail blaenoriaethau'r strategaeth yw'r gwaith cynhwysiad digidol a chynhwysiad ariannol. Mae cyfres o sesiynau hyfforddiant ar gynhwysiad ariannol a digidol ar gyfer staff rheng flaen y Cyngor wedi eu cynnal.

3.1.4 Rwyf yn awyddus i gadw llygaid ar ddatblygiadau Cenedlaethol o ran yr agenda tlodi yn wyneb datganiad diweddar Carl Sargeant, Ysgrifennydd Cabinet Cymunedau a Phlant ynglŷn â'r rhaglen Cymunedau Gyntaf. Bydd adroddiad yn dod i gyfarfod o'r Tîm Arweinyddiaeth maes o law ar oblygiadau dod a'r rhaglen i ben.

3.2. T9 - Strategaeth Cyflenwad Tai

3.2.1 Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.

3.2.2 **Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig** - Gwaith o gyflwyno tri chais cynllunio yn mynd yn ei flaen gyda'r bwriad o ymgynghori yn lleol ar gynllun Penygroes, sydd y mwyaf aeddfed o'r tri, ym mis Tachwedd. Pe byddai'r tri chais cynllunio yn llwyddiannus, byddai hyd at 39 o gartrefi yn cael eu darparu ar draws Gwynedd. Ers y tro diwethaf i mi adrodd rwyf wedi derbyn papur, a chyfarfod gyda swyddogion perthnasol ar y 27.09.16, i drafod opsiynau ar gyfer cyflawni'r model Ymddiriedolaeth Tir a sicrhau ei fod yn gynaliadwy i'r dyfodol. Bwriedir sefydlu tîm prosiect rhwng Cyngor a Grŵp Cynefin er mwyn symud materion yn eu blaen.

3.2.3 **Tai gwag yn ôl i ddefnydd** - Cyfarfod ar y cyd gyda thîm Tai Gwag a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi ei gynnal er mwyn rhannu gwybodaeth am ba adnoddau sydd ar gael gyda bwriad o edrych ar ddarparu tai a chefnogaeth o bosib i bobl ddigartref. Ers i mi adrodd y tro

diwethaf mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ble mae gwybodaeth wedi ei rannu gyda pherchnogion tai gwag ac opsiynau posib yn cael eu trafod lle mae'n addas i wneud hynny. Mae dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd hefyd yn rhan o waith dydd i ddydd y Gwasanaeth ac eleni mae cyfanswm o 16 tŷ gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd.

3.2.4 **Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref** - Mae'r Gwasanaeth Digartref yn edrych ar opsiynau o ddefnyddio eiddo gwag er mwyn cael model Tai a Chefnogaeth yn yr ardal. Bydd lleoliadau posib yn cael eu trafod gyda Chymdeithasau Tai er mwyn costio'r cynllun.

3.2.5 **Darpariaeth i bobl hyn sy'n hybu annibyniaeth** – Adroddais y tro diwethaf fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Gwasanaeth Comisiynu a Chymdeithasau Tai er mwyn ddadansoddi data o ran yr ardaloedd sydd wedi eu hadnabod ac i weld pa fylchau sydd yn bodoli. Yn anffodus nid oes cynnydd wedi bod ers hynny ac rwyf wedi pwysleisio'r angen i roi sylw i hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

3.3. C5 - Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth

3.3.1 Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol. Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi creu system graidd ar gyfer cofnodi a hwyluso mynediad at wasanaethau'r Cyngor fydd yn cynnwys y sianeli cyswllt traddodiadol a'r sianel ddigidol ar gyfer hunanwasanaeth.

3.3.2 Yn dilyn penderfyniad i ddatblygu ein system hunan wasanaeth ein hunain yn hytrach na phrynu system oddi ar y silff mae cynllun busnes drafft wedi ei ddatblygu dros y misoedd diwethaf. Rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect wneud gwaith pellach er mwyn gallu darparu amcangyfrif o'r arbedion cychwynnol sy'n debygol o ddeillio o'r prosiect.

3.3.3 Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd angen £200,000 dros 3 blynedd i ariannu'r prosiect hwn ond mae'n debyg y bydd angen adnoddau ychwanegol. Byddaf mewn sefyllfa i allu cadarnhau'r gwir symiau pan fydd y gwaith ychwanegol hyn wedi ei gwblhau ac rwy'n rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i gyflwyno'r cynllun busnes i'r Tîm Arweinyddiaeth yn y flwyddyn newydd.

3.3.4 Yn y cyfamser, nodir fod gwaith cefndirol a pharatoadol ar gyfer cyflwyno'r system yn parhau i fynd yn ei flaen. Un enghraifft yw'r gwaith ar y cyd gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol lle mae darpariaeth ar gael i drigolion y Sir dalu am y gwasanaeth bin gardd ar-lein neu drwy ffonio'r ganolfan gyswllt.

3.4. C8 - Llywodraethu gwybodaeth

3.4.1 Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo. Erbyn diwedd 2017, byddwn wedi asesu priodoldeb ein trefniadau diogelu gwybodaeth (gan gynnwys effeithiolrwydd ein trefniadau hyfforddiant) gan lunio unrhyw gynigion sydd ei angen ar gyfer gwreiddio egwyddorion diogelwch gwybodaeth drwy'r holl sefydliad.

3.4.2 Ers i mi adrodd ar y cynnydd diwethaf mae'r sesiynau hyfforddiant wedi parhau gyda staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu. Mae fideo wedi ei greu yn benodol i staff Oedolion/Plant er mwyn ei ychwanegu i'r modiwl e-ddysgu.

3.4.3 Yn ogystal, mae 90 o staff o'r Adran Addysg, Economi, Cefnogaeth Gorfforaethol, Ymgynghoriaeth a Chartref Hafod Mawddach wedi derbyn hyfforddiant ystafell ddosbarth neu wedi mynychu sesiynau briffio. Ar y cyfan, mae'r ymateb i'r gwahanol hyfforddiant wedi bod yn bositif ond amser a ddengys os bydd hyn yn arwain at well trefniadau i gadw gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol.

3.4.4 Dros y misoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal archwiliad o ymwybyddiaeth Adrannau o waith y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth a derbyniwyd ymateb gan 677 allan o 2123 o weithwyr (32%). Mewn ymateb i'r materion a amlygwyd o fewn yr archwiliad mae cynllun gweithredu wedi ei lunio fydd yn canolbwyntio ar Hyfforddiant Uwch Reolwyr/Rheolwyr, creu mwy o ymwybyddiaeth o fewn Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rheoleiddio ac Ymgynghoriaeth a chodi ymwybyddiaeth ynghylch yr angen am daclusrwydd swyddfa.

3.4.5 Mae rhywfaint o lithriad wedi bod yn yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r system marciau gwarchod ar e-byst oherwydd nad oedd yn gydnaws gyda system diogelwch TG y Cyngor. Mae'r problemau technegol wedi eu datrys erbyn hyn a bydd y system yn cael ei chyflwyno fesul Adran o Ionawr 2017 ymlaen.

## 4. MESUR PERFFORMIAD

4.1. Ar y cyfan rwy'n hapus gyda pherfformiad y maes Tai ac fel yr ydych yn ymwybodol, dros y misoedd diwethaf, mae'r Unedau'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn ystyried eu pwrpas o safbwynt trigolion Gwynedd a sut felly dylid mesur eu perfformiad.

4.2 Mae'r **Uned Ddigartrefedd** wedi gosod eu pwrpas ac wedi sefydlu dau brif fesur (Atodiad 1). Mae dirywiad wedi bod o ran y dyddiau mae'n **cymryd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig** (78 diwrnod eleni o gymharu â 69 yn 2015/16) a'r **cyfnod a dreulir mewn llety dros dro** (131 diwrnod eleni o gymharu â 126 yn 2015/16).

4.3 Credir fod cyfuniad o resymau am y dirywiad mewn perfformiad megis y ffaith fod rhai unigolion, sy'n anodd eu lletya am amryw resymau, yn parhau mewn llety dros dro ers cyfnodau hir ac yn gwthio'r cyfartaledd yn uwch ac yn uwch. Yn ogystal â hyn mae newidiadau deddfwriaethol diweddar, newidiadau mewn budd-daliadau lles, salwch staff uwch na'r arfer a chynnydd cyffredinol mewn galw ar y system i gyd yn cyfrannu. Er enghraifft mae nifer y cyfeiriadau mae'r Uned wedi ei dderbyn dros y blynyddoedd yn cynyddu – 560 yn 2014/15, 648 yn 2015/16 a 379 hyd yn hyn eleni (ond rhagwelir 794 erbyn diwedd y flwyddyn pe byddai tuedd eleni yn parhau).

4.4 Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ceisio ymateb i hyn, megis y galw am sefydlu Cronfa Atal Digartrefedd barhaol i gyfarch yr angen cynyddol a'r cyfrifoldebau statudol newydd yn sgil Deddf Tai Cymru 2014 ddaeth i rym yn Ebrill 2015 . Roedd y 'Gronfa Atal', oedd yn cael ei gefnogi gan grant sydd bellach yn dirwyn i ben, yn cael ei ddefnyddio yn bennaf i dalu am flaendal rhent neu warant rent gan sicrhau tenantiaethau sector breifat a hefyd i gadw pobl yn eu cartrefi i osgoi cais digartrefedd. Roedd y Gronfa o gymorth i leihau'r cyfnod o

aros am lety gan arbed sefyllfaoedd mwy dwys a chostus rhag esblygu ac yn osgoi galw am lety cymdeithasol.

4.5 Ers i mi adrodd i chi y tro diwethaf mae'r **Uned Cefnogi Pobl** wedi cyflwyno mesurau a data y maent o'r farn sy'n mesur eu pwrpas fel Uned. Bydd y rhain yn cael eu cadarnhau yn y Tîm Rheoli Adrannol nesaf a byddaf wedyn mewn sefyllfa i'w ychwanegu i'm rhestr o fesurau perfformiad y byddaf yn adrodd arnynt (Atodiad 1). Er enghraifft, hyd yma eleni, mae 674 o bobl wedi derbyn cefnogaeth ac o'r rheini mae 216 ohonynt wedi symud ymlaen. O'r rheini sydd wedi bellach wedi symud ymlaen, gallaf adrodd fod anghenion 82 ohonynt wedi cael ei gyfarch yn llawn a bellach ddim angen cefnogaeth (38%).

4.6 Rwy'n falch o adrodd hefyd fod yr **Uned Grantiau a Gorfodaeth** wedi cyflwyno mesurau perfformiad sydd yn mesur eu pwrpas. Un enghraifft o'r mesurau sy'n cael eu hystyried yw canran o'r peryglon difrifol a pheryglon diffygiol wedi eu gwella i lefel derbyniol trwy orfodaeth mewn cartrefi wedi eu rhentu. Mae perfformiad y mesur hwn ar hyn o bryd yn 97% ond fel yr wyf wedi ei nodi yn 4.5 bydd y mesurau hyn a'r data ynghlwm yn cael eu cadarnhau yn y Tîm Rheoli Adrannol nesaf.

4.7 Rwy'n falch o adrodd fod perfformiad o ran y mesur **'Strat6'** yn perfformio yn unol â'r disgwyl gyda 24 uned fforddiadwy wedi ei sicrhau hyd yma. Gallaf gadarnhau fod y ffigwr hwn yn cynnwys 16 tŷ gwag nol i ddefnydd ac 8 tŷ rhent cymdeithasol.

**PWYNT GWEITHREDU O'R CYLCH DIWETHAF:**
**Cytunwyd bod angen cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Anffurfiol o Aelodau'r Cabinet sy'n rhoi darlun cyfansawdd o'r ddarpariaeth ar draws pob sector.**

Mae rhan fwyaf o weithgaredd y Cymdeithasau Tai yn deillio o raglen Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru, mae hwn wedi bod yn gyson ar lefel o tua £1.4 miliwn yn flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi ei raglennu hyd at 2019. Cyflwynais wybodaeth i chi, fel rhan o fy adroddiad diwethaf, y datblygiadau hynny sy'n weithredol ar hyn o bryd a hefyd y rhai sydd ar y gorwel. Fe fyddwch yn ymwybodol hefyd o darged Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o dai yn ystod tymor y Llywodraeth ac felly fel rhan o'r ymrwymiad hwn maent yn Cynyddu'r Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllido Tai. Golyga hyn bydd hyd at £3 miliwn o Grant Tai Cymdeithasol yn 2017-18 gyda ffigyrau am y blynyddoedd canlynol heb eu cadarnhau eto, a bron i £4 miliwn o Grant Cyllido Tai yn cael ei ddyrannu i Wynedd yn ystod 2017-2021.

Yn benodol o ran y flwyddyn ddiwethaf (2015/16) gallaf adrodd y ffigyrau canlynol:
48 o unedau fforddiadwy wedi eu cwblhau (cartrefi i 93 o bobl)
211 o unedau wedi eu cwblhau (21% o'r rhain yn unedau fforddiadwy) - gwybodaeth wedi ei gyflwyno gan yr Uned Polisi Cynllunio.

Mae dros 8,000 o stoc tai cymdeithasol dros y Sir ac ar hyn o bryd mae 2038 o geisiadau ar y rhestr aros. Dylid pwysleisio fod y rhestr aros un ffordd o fesur y 'galw' ond ddim yn rhoi'r darlun llawn i ni. Yn flynyddol, mae tua 700 o dai cymdeithasol yn cael eu gosod drwy Bolisi Gosod Cyffredin, mae hyn yn cynnwys tai newydd ac ail osod.

4.8 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda pherfformiad mwyafrif mesurau'r unedau Gofal Cwsmer (Cyswllt Cwsmer, Cofrestru, Gwybodaeth a Thîm y Wê) er bod rhywfaint o waith pellach i'w wneud cyn y gellir cadarnhau'r pwrpasau a mesurau terfynol. Un pwynt cyffredin yr wyf wedi ei godi ar gyfer nifer o'r mesurau pan yn adrodd i'r dyfodol yw'r angen i nodi'r materion sydd wedi eu hamlygu wrth gasglu'r data ar gyfer y mesurau a sut y bwriedir ymateb er mwyn sicrhau fod gennyf well dealltwriaeth o'r sefyllfa.

4.9 Mae'r **Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth** yn gyfrifol am sicrhau fod gennym drefniadau cadarn yn eu lle er mwyn diogelu data a gwybodaeth. Gwelwyd 3 digwyddiad o dan y mesur **Nifer digwyddiadau gwybodaeth (ers 1af Ebrill)** ac rydym wedi sefydlu'r rhesymau pam a rhoi camau yn eu lle mwyn ymateb. Er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r achosion rwyf wedi gofyn i'r Rheolwr perthnasol ystyried graddio difrifoldeb yr achosion ar gyfer y dyfodol.

4.10 Mae gwefan y Cyngor yn adnodd pwysig sy'n galluogi'r cyhoedd i ganfod gwybodaeth a hunan wasanaethu. Dengys y wybodaeth ddiweddaraf gan **Dîm y Wê** fod **% defnyddwyr sy'n adrodd eu bod anfodlon/anfodlon iawn** a'r **% sydd ddim wedi canfod yr hyn yr oeddent yn chwilio amdano** yn isel a'i fod wedi parhau yn gyson ers dechrau mis Ebrill.

4.11 Mae **Unedau Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** yn edrych i roi cymorth prydlon a chywir i gwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth. Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau ond nodir y cynnydd yn y mesur **CYSCW04 - Canran y galwadau sydd ddim yn cael eu hateb gan Galw Gwynedd.** Ceir nifer o resymau megis lleihad yn y nifer o swyddogion o ganlyniad i gynlluniau arbedion a'r system ffon newydd sy'n arddangos rhif y Ganolfan Alw pan y gwneir galwad o swyddfeydd y Cyngor, sydd yn ei dro yn arwain at alwadau yn ôl i'r rhif hynny os yw pobl wedi methu'r alwad wreiddiol. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa rwyf wedi gofyn i Reolwr yr Uned gyflwyno papur i'r cyfarfod nesaf yn amlygu'r materion a sut mae'r Uned yn bwriadu ymateb. Yn ogystal, dros y pythefnos diwethaf mae'r newidiadau i'r trefniadau bin gardd wedi arwain at gynnydd sylweddol yng ngwaith yr Unedau dan sylw trwy ymateb i ymholiadau a chymryd taliadau.

4.12 Mae mesurau'r **Gwasanaeth Llyfrgelloedd** yn cael eu casglu a'u hadrodd yn flynyddol. Fodd bynnag, mae'n fwriad ystyried a mireinio'r mesurau sy'n cael eu hadrodd wrth i'r Adran Economi adolygu eu cynllun busnes. Byddaf mewn sefyllfa i adrodd ar rhai o'r mesurau blynyddol ym mis Ionawr 2017.

## 5. MATERION ERAILL

5.1 **Ffoaduriaid** - Bellach mae dau deulu (o bump a saith) wedi ymgartrefu yng Ngwynedd. Mae'r lefel o gefnogaeth sydd angen ei ddarparu yn uchel ac yn debygol o barhau yn y tymor hir. Rwy'n falch o adrodd fod cyd weithio da wedi bod gydag asiantaethau a mudiadau gwirfoddol lleol ac rydym hefyd wedi gweld cymunedau yn barod iawn i gyfrannu nwyddau ac amser gyda'r teuluoedd dan sylw. Rhagwelir y bydd y criw nesaf yn cyrraedd ym mis Ionawr. Mae trafodaethau yn parhau hefyd o ran ein hymateb i blant heb deulu.

5.2 **Cydraddoldeb** - Mae gwaith yn parhau i weithredu ar yr hyn sydd wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2016-20, ar yr amcanion canlynol;

| | |
|---|---|
| Amcan 1 - Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb | Rhaglen waith wedi ei greu a gwaith wedi cychwyn ar gysylltu gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb. Y bwriad yw creu grŵp rhithiol y bydd posib cysylltu gyda hwy a chanfod barn ar newidiadau o fewn y Cyngor. |
| Amcan 2 - Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb | Rhaglen waith wedi ei greu a gwaith yn mynd yn ei flaen. Trafodaethau wedi cymryd lle gyda Dysgu a Datblygu er mwyn trafod y ffordd orau o gynnig cymorth a hyfforddiant i staff. Gwaith o addasu'r modiwl e-ddysgu yn cymryd lle. Mae'r mesurau canlynol |

| | |
|---|---|
| | wedi eu creu i fesur cynnydd cyflawni Amcan 2, CG28- Y canran o strategaethau, polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor sydd wedi derbyn Asesiad Effaith Cydraddoldeb a CG29- Y canran o bobl sy'n cytuno bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi eu helpu i wneud penderfyniad. Mae gwaith yn parhau o ran diffinio a datblygu'r mesurau hyn er mwyn gallu adrodd cynnydd. |
| Amcan 3 - Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig | Mae prosiect Hybu Amrywiaeth mewn Democratiaeth ar waith ac yn dilyn y rhaglen waith. Mae fideo wedi ei greu i esbonio beth yw gwaith Cynghorydd. Pwrpas y fideo yw esbonio beth yw'r gwahanol elfennau o fewn rôl Cynghorydd. Lansiwyd y fideo ym mis Mehefin 2016 gyda chyfres o ddatganiadau i'r wasg, a chyfres o negeseuon cyson ar gyfrifon Trydar a facebook y Cyngor<br>Mae'r ymateb i'r fideo wedi bod yn llwyddiannus, gyda<br>• Dros 1,000 o bobl wedi gwylio'r fideo drwy safle facebook y Cyngor<br>• Bron i 500 arall wedi gwylio'r fideo trwy gysylltu o safle trydar y Cyngor a'i ddilyn oddi yno<br>Mae'r fideo hefyd wedi ei gyhoeddi ar safle we'r Cyngor dan gyfeiriad hawdd i'w gofio, sef, www.gwynedd.llyw.cymru/BodYnGynghorydd. Yn ogystal mae'r safle we yn cynnwys y pedwar maes canlynol, Rôl Cynghorydd, Ydw i'n gymwys?, Ydw i'n gymwys, Ar ôl eich ethol.<br>Ar ddiwedd y fideo uchod, gofynnir i unigolion lenwi holiadur i nodi os oes rhywbeth yn eu rhwystro rhag symud ymlaen i sefyll mewn etholiad.<br><br>Er mwyn annog mwy o bobl o wahanol gefndiroedd i sefyll i'r dyfodol, datblygwyd fideo syml sy'n esbonio holl ystod gwaith y Cyngor. Cafodd y fideo ei lansio ar Fedi 15fed i gyd-fynd gyda Diwrnod Cenedlaethol Democratiaeth. |
| Amcan 4 - Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau | Mae rhan cyntaf o'r amcan yn ymwneud gyda llenwi bylchau mewn data nodweddion cydraddoldeb staff y cyngor. Mae e-bost wedi ei baratoi a threfniadau wedi eu gwneud gyda TG i anfon e-bost allan i'r staff hynny sydd heb ymateb er mwyn llenwi'r bylchau data. Bydd yr e-bost yn cael ei anfon allan cyn diwedd mis Tachwedd. Mae trefniadau ar y gweill i gael ymateb gan staff sydd heb fynediad i gyfrifiadur y Cyngor. Yn ogystal mae trefniadau ar gyfer yr awdit tal yn cael ei gynllunio ynghyd â rhaglen waith addas. |

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1. Yn dilyn cymeradwyaeth diweddar i un cynllun ychwanegol ac ail-broffilio un arall, gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm fy nghynlluniau arbedion ar gyfer eleni i £509,138. Mae £478,138 (94%) ohonynt wedi eu gwireddu a rhagwelir y bydd y gweddill yn cael eu gwireddu cyn diwedd y flwyddyn.

6.2 Fel yr adroddais i chi y tro diwethaf mae'r gwariant y cynlluniau cyfalaf yn mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau cyfalaf y maes hwn yn cael ei adrodd trwy'r prosiect T9 Strategaeth Cyflenwad Tai ond yn y tu allan i hynny mae cynlluniau megis 'Grantiau Tai' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer addasiadau i'r anabl (£1.1m DFG - *Disabled Facilities Grants*), £100,000 ar gyfer man addasiadau a £800,000 yn cael ei wario a'r brosiectau amrywiol megis diogelwch tan. Cynllun cyfalaf arall yw'r grant o £900,000 sy'n cael ei gylchdroi a'i weinyddu ar gyfer gwelliannau i dai.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Dim i'w nodi.

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r cynnydd o fewn y portffolio amrywiol hwn ac, yn ogystal â nodi beth sydd wedi ei gyflawni yn tynnu sylw at feysydd o bryder, fel y dirywiad o ran y dyddiau mae'n cymryd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r digartref a'r cyfnod a dreulir mewn llety dros dro a'r canran o alwadau sydd ddim yn cael eu hateb gan Galw Gwynedd. Y peth pwysig mewn achosion o'r fath yw bod camau yn eu lle i ddeall yr hyn sydd yn digwydd a chynllun ar gyfer newid y tueddiad.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'n galonogol fod yr Aelod Cabinet yn hyderus (yn rhan 6.1 o'r adroddiad) bydd yr amrywiol adrannau perthnasol yn gwireddu'r cynlluniau arbedion yn amserol.

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad